WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Gwella Blynyddol 2014-15

# Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

Cyhoeddwyd: Awst 2015
Cyfeirnod y ddogfen: 428A2015



Paratowyd yr Adroddiad Gwella Blynyddol hwn ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru gan Steve Barry a Ron Price o dan gyfarwyddyd Jane Holownia.

**Huw Vaughan Thomas**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth a chaiff ei benodi gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru, sef bwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac er mwyn monitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, gwasanaethau prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae hefyd yn cynnal astudiaethau gwerth am arian llywodraeth leol ac yn asesu cydymffurfiaeth â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'r cyrff a noddir ganddi a'i chyrff cyhoeddus cysylltiedig, Comisiwn y Cynulliad a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol a staff Swyddfa Archwilio Cymru yn anelu at ddarparu adroddiadau cymesur sy'n canolbwyntio ar y cyhoedd ar stiwardiaeth adnoddau cyhoeddus a thrwy wneud hynny, feithrin dealltwriaeth a hyrwyddo gwelliant.

# Cynnwys


Adroddiad cryno 4

Diben yr adroddiad hwn 4

Gwaith Archwilio Perfformiad 2014-15 5

Penawdau – crynodeb o'r prif ganfyddiadau 6

Cynigion ar gyfer Gwella 7

Adroddiad manwl 8

Mae'r Awdurdod yn rheol ei gyllid yn dda ac wedi gweithredu newidiadau sydd wedi gwella ei ddefnydd o adnoddau ond mae'r lleihad mewn gallu corfforaethol yn debygol o arafu newidiadau yn y dyfodol 8

Mae gan yr Awdurdod drefniadau rheoli ariannol effeithiol 11

Mae'r Awdurdod wedi rheoli'r gwaith o gyflawni arbedion effeithlonrwydd tra'n cynnal lefelau diogel o wasanaeth ond mae'r lleihad mewn gallu corfforaethol yn debygol o arafu newidiadau yn y dyfodol 14

Mae systemau sefydledig yn cynhyrchu gwybodaeth reoli gywir, er bod bylchau o ran cydraddoldeb, y mae'r Awdurdod yn ei defnyddio er mwyn cefnogi gwelliant 17

Mae'r Awdurdod yn gweithio'n gadarnhaol ar ei Gynllun Iaith Gymraeg ac yn parhau i wella ei wasanaeth Cymraeg 19

Atodiadau

Atodiad 1 – Statws yr adroddiad hwn 20

Atodiad 2 – Archwilio Cynllun Gwella 2014-15 Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru 21

Atodiad 3 – Archwilio asesiad o berfformiad 2013-14 Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru 23

Atodiad 4 – Llythyr Archwilio Blynyddol 25

# Adroddiad cryno

## Diben yr adroddiad hwn

1 Bob blwyddyn, mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol archwilio trefniadau cynllunio ac adrodd ar welliant cynghorau, awdurdodau tân ac achub ac awdurdodau parciau cenedlaethol yng Nghymru, ac asesu a fydd pob awdurdod yn cyflawni dyletswyddau statudol yn ymwneud â gwelliant parhaus[1]. Cyflawnwyd y gwaith hwn ar ran yr Archwilydd Cyffredinol gan staff Swyddfa Archwilio Cymru. Mae Atodiad 1 yn rhoi rhagor o wybodaeth am bwerau a dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol.

2 Mae'r Adroddiad Gwella Blynyddol hwn yn crynhoi'r gwaith archwilio a wnaed yn Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) ers i'r adroddiad diwethaf o'i fath gael ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2014.

3 Gan ystyried y gwaith a gyflawnwyd yn ystod 2014-15, bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn nodi yn yr adroddiad hwn a yw o'r farn y bydd yr Awdurdod yn debygol o wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2015-16.

4 Ni ddylid ystyried bod y datganiad hwn yn rhoi barn bendant am sefyllfa sefydliad nac yn rhagfynegi ei lwyddiant yn y dyfodol. Yn hytrach, dylid ystyried ei fod yn rhoi barn am y graddau y mae'r trefniadau sydd ar waith ar hyn o bryd yn rhesymol gadarn i'r graddau y gellir nodi hynny ar sail y gwaith a gyflawnwyd.

5 Rydym am wybod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac a yw'n hawdd ei ddeall. Gallwch fynegi eich barn drwy anfon e-bost atom yn info@audit.wales neu ysgrifennu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ.

1 Nodir dyletswyddau a gofynion ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur).

## Gwaith archwilio perfformiad yn 2014-15

6 Wrth bennu hyd a lled y gwaith a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn, gwnaethom ystyried graddau'r gronfa o wybodaeth archwilio ac arolygu a oedd ar gael yn ogystal â ffynonellau eraill o wybodaeth, gan gynnwys systemau adolygu a gwerthuso'r Awdurdod ei hun. Ar gyfer 2014-15, gwnaethom gyflawni gwaith asesu gwelliant o dan y themâu canlynol: y defnydd o adnoddau; llywodraethu; a pherfformiad.

7 Nodir y gwaith a gyflawnwyd ers yr Adroddiad Gwella Blynyddol diwethaf isod:

| Enw'r Prosiect | Disgrifiad byr | Dyddiadau [pryd y cyflawnwyd y gwaith] |
|---|---|---|
| Archwiliad Blynyddol o'r 'Cynllun Gwella' | Adolygiad o gynlluniau cyhoeddedig yr Awdurdod ar gyfer cyflawni amcanion gwella. | Mehefin 2014 |
| Archwiliad Blynyddol o'r 'Asesiad o Berfformiad' | Adolygiad o asesiad o berfformiad cyhoeddedig yr Awdurdod, gan gynnwys profi a dilysu gwybodaeth am berfformiad. | Tachwedd 2014 |
| Adolygiad o Ansawdd Data | Asesu pa mor ddibynadwy yw gwybodaeth a pha mor effeithiol y mae'n cael ei defnyddio wrth reoli perfformiad. | Tachwedd 2014 |
| Asesu Cynlluniau Ariannol | Adolygiad o sefyllfa ariannol yr Awdurdod a sut mae'n cyllidebu ac yn cyflawni arbedion gofynnol. | Rhagfyr 2014 |
| Cyflawni â llai - ad-drefnu'r gweithlu | Asesu sut mae'r Awdurdod yn rheoli'r gwaith o ddarparu gwasanaethau yng nghyd-destun llai o adnoddau. | Mehefin 2015 |

8 Yn seiliedig ar y gwaith a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru a rheoleiddwyr perthnasol, ac yn gyfyngedig i'r gwaith hwnnw, cred yr Archwilydd Cyffredinol fod yr Awdurdod yn debygol o gydymffurfio â gofynion y Mesur yn ystod 2015-16.

## Penawdau – crynodeb o’r prif ganfyddiadau

9 Mae’r tabl isod yn crynhoi canfyddiadau allweddol adroddiadau a gyhoeddwyd ers yr Adroddiad Gwella Blynyddol diwethaf gan Swyddfa Archwilio Cymru a chanlyniad yr adolygiad o’r Cynllun Iaith Gymraeg gan Gomisiynydd y Gymraeg.

| | |
|---|---|
| Archwilio cyfrifon | Rhoddwyd barn archwilio ddiamod gennym ar y datganiadau cyfrifyddu a sefyllfa ariannol a thrafodion y Gronfa Bensiwn ar 29 Medi 2014. Golyga hyn fod yr Awdurdod wedi cydymffurfio â'i gyfrifoldebau yn ymwneud ag adroddiadau ariannol a defnyddio adnoddau a bod y cyfrifon yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol yr Awdurdod. |
| Archwilio trefniadau cynllunio ac adrodd ar welliant | Gwnaethom gyhoeddi tystysgrifau yn nodi bod yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan y Mesur (gweler Atodiadau 2 a 3). |
| Asesu cynlluniau ariannol | Mae gan yr Awdurdod drefniadau rheoli ariannol effeithiol. |
| Y defnydd o Adnoddau | Mae'r Awdurdod wedi rheoli'r gwaith o gyflawni arbedion effeithlonrwydd tra'n cynnal lefelau diogel o wasanaeth ond mae'r lleihad mewn gallu corfforaethol yn debygol o arafu newidiadau yn y dyfodol. |
| Dibynadwyedd Gwybodaeth am Berfformiad a'r defnydd a wneir ohoni | Mae systemau sefydledig yn cynhyrchu gwybodaeth reoli gywir, er bod bylchau o ran cydraddoldeb, y mae'r Awdurdod yn ei defnyddio er mwyn cefnogi gwelliant. |
| Comisiynydd y Gymraeg – Adolygiad o'r Cynllun Iaith Gymraeg | Mae'r Awdurdod yn gweithio'n gadarnhaol ar ei Gynllun Iaith Gymraeg er mwyn gwella ei wasanaeth Cymraeg. |

10 O ystyried yr ystod eang o wasanaethau a ddarperir gan yr Awdurdod a'r heriau y mae'n eu hwynebu, byddai'n anarferol pe na baem wedi dod o hyd i bethau y gellir eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:

a wneud cynigion ar gyfer gwella – os caiff cynigion eu gwneud i'r Awdurdod, byddem yn disgwyl iddo weithredu arnynt a byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar yr hyn sy'n digwydd;

b gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella – os caiff argymhelliad ffurfiol ei wneud, mae'n rhaid i'r Awdurdod baratoi ymateb i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod gwaith;

c cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi adroddiad a gwneud argymhellion; ac

ch argymell y dylai Gweinidogion Llywodraeth Cymru ymyrryd mewn rhyw ffordd.

11 Yn ystod y flwyddyn, ni wnaeth yr Archwilydd Cyffredinol unrhyw argymhellion ffurfiol. Fodd bynnag, nodir materion â llai o flaenoriaeth, sef cynigion ar gyfer gwella, yn ein hadroddiadau eraill a chyfeirir atynt yn y tabl isod. Byddwn yn parhau i fonitro cynigion ar gyfer gwella yn ystod ein gwaith asesu gwelliant.

## Cynigion ar gyfer Gwella

| Cynigion ar gyfer Gwella | |
|---|---|
| C1 | Datblygu'r trefniadau presennol drwy wneud y canlynol:<br>• cyhoeddi'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig;<br>• llunio polisi clir ar godi tâl am wasanaethau a chynhyrchu incwm;<br>• egluro'r cysylltiadau rhwng amcanion gwella a chynlluniau ariannol; a<br>• chytuno ar bolisi ar y lefel ddisgwyliedig o gronfeydd wrth gefn. |
| C2 | Wrth gynllunio a gweithredu newid, er mwyn asesu gofynion pobl o ran adnoddau er mwyn ysgogi newid a hwyluso dysgu yn y dyfodol, sicrhau fel gofyniad sylfaenol y cedwir cofnod o'r canlynol:<br>• asesiad cyn gweithredu o fuddiannau bwriadedig;<br>• rheoli risg yn effeithiol cyn gweithredu ac yn ystod y broses weithredu; a<br>• gwerthusiad ôl-weithredu o ganlyniadau yn erbyn buddiannau arfaethedig. |

## Adroddiad manwl

Mae'r Awdurdod yn rheol ei gyllid yn dda ac wedi gweithredu newidiadau sydd wedi gwella ei ddefnydd o adnoddau ond mae'r lleihad mewn gallu corfforaethol yn debygol o arafu newidiadau yn y dyfodol



12 Mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) yn gwasanaethu 687,937 o bobl (cyfrifiad 2011) dros ardal ddaearyddol o 2,400 milltir sgwâr.

13 Mae'n cynnwys 28 o gynghorwyr o'r chwe Chyngor yng Ngogledd Cymru: Cyngor Sir Ynys Môn (tri aelod); Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (pum aelod); Cyngor Sir Ddinbych (pedwar aelod); Cyngor Sir y Fflint (chwe aelod); Cyngor Gwynedd (pum aelod); Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (pum aelod). Caiff nifer y cynrychiolwyr o bob Cyngor cyfansoddol ei phennu gan boblogaeth yr awdurdod hwnnw.

14 Yn ystod y blynyddoedd diwethaf bu'r Awdurdod yn ymateb i'r heriau ariannol a wynebir gan wasanaethau yn y sector cyhoeddus tra'n sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'i gyfrifoldebau statudol. Yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn nodwn rai o'r ffyrdd y mae hyn wedi'i wneud. Ym mis Mawrth 2015 cyhoeddodd yr Awdurdod ei Gynllun Gyfunol ar gyfer Gwella a Lleihau Risgiau sy'n rhoi manylion am ei weithgarwch a'r materion penodol y mae'n mynd i'r afael â hwy. Mae'r Cynllun ar gael ar wefan yr Awdurdod.

### Arddangosyn 1: Gwariant refeniw gwirioneddol 2011-12 i 2013-14

| | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 |
|---|---|---|---|
| Alldro refeniw (£,000) | 30,958 | 32,715 | 32,969* |
| Fesul pen o'r boblogaeth | £45 | £47 | £48 |

*Mae'n cynnwys costau untro o £100,836 sy'n gysylltiedig â gweithredu diwydiannol

Ffynhonnell: Ystadegau Llywodraeth Cymru, Cymru

15 Er bod y ffigurau yn yr Arddangosyn yn awgrymu bod gwariant wedi cynyddu ychydig dros amser pan ystyrir pwysau chwyddiannol, mewn termau real lleihaodd gwariant £844,000[2] dros y cyfnod yn gyffredinol rhwng 2011-12 a 2013-14. Costau staff yw'r elfen fwyaf sylweddol o wariant ac er mwyn cyrraedd y sefyllfa hon mae nifer y staff wedi lleihau yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae costau staff a ddangosir yn natganiadau o gyfrifon yr Awdurdod ar gyfer 2011-12, 2012-13 a 2013-14 wedi gostwng £1,856,229[3] mewn termau real ers 2011-12. Gan gymhwyso'r un dadansoddiad 'termau real' at y gwariant fesul pen o'r boblogaeth, mae'r cynnydd o £45 fesul pen o'r boblogaeth yn 2011-12 i £48 fesul pen o'r boblogaeth mewn gwirionedd yn cyfateb i gynnydd o £1 fesul pen o'r boblogaeth mewn termau real.

16 Pennodd yr Awdurdod gyllideb o £31,772,011 ar gyfer 2014-15.

2 Fel y'u mesurir gan ddatchwyddwyr cynnyrch domestig gros y Trysorlys a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2015.
3 Fel y'u mesurir gan ddatchwyddwyr cynnyrch domestig gros y Trysorlys a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2015.

17 Gan gadw at ei ymrwymiad i gyfyngu unrhyw gynnydd mewn cyfraniadau ariannol gan gynghorau sir i uchafswm sy'n cyfateb i £1 ychwanegol fesul pen o'r boblogaeth, penderfynodd yr Awdurdod gynyddu'r cyfraniadau ar gyfer 2015-16 (sy'n cyfateb i 18c y pen y flwyddyn). Er mwyn ymdopi â pheth o'r cynnydd mewn costau na ellid ei osgoi yn 2015-16, yr amcangyfrifwyd ei fod yn cyfateb i £628,000, penderfynodd yr Awdurdod hefyd wneud arbedion drwy wneud y canlynol:

a rhoi'r gorau i ddarparu gwasanaethau achub â rhaffau ac achub anifeiliaid mawr anstatudol, gan arbed tua £16,000 y flwyddyn;

b lleihau nifer y larymau ffug yr ymatebwyd iddynt (a achoswyd gan larymau tân awtomataidd) ymhellach, gan arbed tua £25,000 y flwyddyn;

c lleihau nifer y rheolwyr gweithredol ymhellach (o 32 i 28), gan arbed tua £250,000 y flwyddyn;

ch a dyrannu £223,168 o'i gronfeydd wrth gefn i wneud iawn am y diffyg.

## Mae gan yr Awdurdod drefniadau rheoli ariannol effeithiol

### Cydymffurfiodd yr Awdurdod â'i gyfrifoldebau yn ymwneud ag adroddiadau ariannol

18 Ar 5 Ionawr, cyflwynodd yr Archwilydd Cyffredinol Lythyr Archwilio Blynyddol i'r Awdurdod. Mae'r llythyr yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n deillio o'i gyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 fel yr Archwilydd Penodedig a'i gyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio. Rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol farn archwilio ddiamod ar ddatganiadau cyfrifyddu'r Awdurdod, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol a thrafodion yr Awdurdod a'r Gronfa Bensiwn. Mae'r Llythyr Archwilio Blynyddol ar gael yn Atodiad 4 o'r adroddiad hwn.

### Mae gan yr Awdurdod hanes da o reoli'r gyllideb yn effeithiol a sicrhau trefniadau er mwyn gweithredu o fewn ei gyfyngiadau ariannol

19 Rhwng 2011-12 a 2013-14, rheolai'r Awdurdod y gyllideb yn effeithiol, gan gynnal asesiadau amserol o'r opsiynau y gallai'r Awdurdod eu rhoi ar waith er mwyn parhau i fantoli'r gyllideb. Mae'r Awdurdod wedi llunio cytundeb lefel gwasanaeth hirdymor â Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar gyfer darparu gwasanaethau rheoli ariannol, y gyflogres, rheoli'r trysorlys a'r gwasanaeth archwilio mewnol. Mae'r trefniant hwn yn gweithio'n dda ac yn darparu lefel ddigonol o reoli ariannol ar gyfer yr Awdurdod. Mae'r trefniadau rheoli cyllidebol yn effeithiol ac mae trefniadau monitro ac adrodd ar lefel swyddogion, aelodau a staff gweithredol yn gadarn. Mae gwaith rhagamcanu ariannol wedi'i ddatblygu'n dda ac yn gywir ac mae'n destun gwaith craffu a herio manwl yng nghyfarfodydd yr Awdurdod.

20 Sefydlodd yr Awdurdod strategaeth tair blynedd (yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 2011-12 a 2013-14) er mwyn rhewi'r gyllideb. Effaith y penderfyniad hwn oedd y byddai'n rhaid i unrhyw gynnydd chwyddiannol, dyfarniadau cyflog a phwysau cost eraill cael eu talu o'r ddarpariaeth gyllidebol bresennol. Bu'r broses hon yn un heriol i'r Awdurdod am ei bod yn gofyn am gyfundrefn rheoli costau effeithiol ym mhob agwedd ar y gwasanaeth.

21 Mae'r Awdurdod wedi dangos ei fod yn barod i ystyried newid y ffordd y darperir gwasanaethau. Er enghraifft, cael gwaredu ar lwyfan ysgol awyrol, newidiadau i strwythurau staffio a'r penderfyniad i roi contractau cyflogaeth hyblyg ar waith er mwyn sicrhau bod digon o staff wrth gefn. Mae'r Awdurdod wedi ymgynghori'n eang ynghylch newidiadau arfaethedig i'r ffordd y darperir gwasanaethau a chyflawnwyd y broses honno o reoli newid yn effeithiol.

22 Yn ystod y cyfnod a gwmpesir gan yr adroddiad hwn, pennodd yr Awdurdod gyllideb gytbwys heb fawr ddim amrywiadau yn yr un o'r penawdau cyllidebol. Mae'r elfen fwyaf o gost yn ymwneud â chostau cyflogeion, ac mae gwaith cyllidebu darbodus yn y maes hwn wedi rhoi cyfle i'r Awdurdod danwario yn erbyn ffigurau'r gyllideb wreiddiol. Mae lefelau isel o gynnydd mewn cyflogau, y cytunwyd arnynt drwy gyd-drafodaethau cenedlaethol, hefyd wedi galluogi'r Awdurdod i gynllunio cyllidebau a chytuno arnynt yn effeithiol.

23 Sicrhawyd arbedion mewn meysydd eraill sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau a chostau cyflogeion. Er enghraifft, newidiadau mewn arferion gwaith ym mhob rhan o'r gwasanaeth, newidiadau i drefniadau dyletswydd weithredol swyddogion, lleihad yn nifer rhai mathau o swyddi a threfnu diffoddwyr tân amser cyflawn ar ddyletswydd. Yn gyffredinol, lleihaodd y gyllideb gyflogau o £22.95 miliwn yn 2010-11 i £20.55 miliwn yn 2013-14. Llwyddwyd i leihau costau ymhellach drwy ailstrwythuro staff cymorth ac ni lenwyd nifer fach o swyddi. Gwnaed arbedion hefyd yn y rhaglen gyfalaf, a rhai arbedion llai o faint yn y gyllideb drafnidiaeth yn 2013-14, ac arbedion ar gyflenwadau.

24 Ers canol 2013 mae'r Awdurdod wedi wynebu heriau mewn anghydfod cenedlaethol sy'n ymwneud yn bennaf â newidiadau arfaethedig y Llywodraeth i drefniadau Pensiwn diffoddwyr tân. O ganlyniad, bu angen i'r Awdurdod roi trefniadau ar waith i barhau i ddarparu ei wasanaethau yn ystod y cyfnodau hyn o weithredu diwydiannol sydd wedi rhoi baich ychwanegol ar yr Awdurdod, yn ariannol ac yn weithredol. Mae'r Awdurdod wedi ateb yr her hon yn effeithiol drwy ddefnyddio ei ddiffoddwyr tân ei hun. Erys yr anghydfod parhaus yn her i'r Awdurdod.

## Mae cynlluniau a threfniadau'r Awdurdod i gyflawni cynlluniau arbedion 2014-15 yn addas at y diben, yn cael eu rheoli'n effeithiol ac yn debygol o gael eu cyflawni, ond erys y sefyllfa tymor canolig yn heriol

25 Mae gan yr Awdurdod fframwaith corfforaethol effeithiol ar gyfer cynllunio ariannol a phrosesau rheoli ariannol clir. Drwy ei Banel Gweithredol, ei Bwyllgor Archwilio a'r Awdurdod Llawn mae'n dangos lefel dda o waith craffu, trafodaeth a her o ran materion ariannol. Mae opsiynau gwario wedi'u hystyried yn gynnar gyda deialog effeithiol rhwng yr Awdurdod, y cymunedau a wasanaethir ganddo a'i awdurdodau lleol cyfansoddol. Mae hyn wedi galluogi'r Awdurdod i bennu cyllideb realistig y gellir ei chyflawni ar gyfer 2014-15, ond erys y sefyllfa tymor canolig yn heriol.

26 Mae'r Awdurdod wedi llwyddo i fantoli ei gyllidebau drwy fesurau arbed darbodus a rheoli costau yn ofalus. Fodd bynnag, mae bellach yn wynebu heriau sylweddol o ran cynnal ystad lawn o orsafoedd sy'n cwmpasu ardal gyfan Gogledd Cymru, anawsterau o ran sicrhau bod digon o staff ar gael i weithio mewn rhai lleoliadau o dan y System Dyletswydd yn ôl y Galw a phatrymau newidiol o ran y galw am ei wasanaethau. O ganlyniad, mae'r Awdurdod yn gorfod ymgysylltu â'i bartneriaid a'i randdeiliaid ar hyn o bryd er mwyn nodi pa opsiynau ar gyfer dyfodol y gwasanaeth fydd y rhai mwyaf effeithiol.

## Nid yw'r Awdurdod yn cyhoeddi ei gynllun ariannol tymor canolig er mwyn ategu'r broses o wneud penderfyniadau strategol

27 Mae gan y gwasanaeth weledigaeth a nod clir, gydag amcanion gwella cydlynol a chlir. Mae'r Awdurdod wedi gwella ei waith cynllunio gwelliant ac yn gwneud gwell defnydd o wybodaeth gymharol am berfformiad yn ei brosesau adrodd. Fodd bynnag, nid oes fawr ddim cyswllt rhwng cost amcanion gwella a'i gynlluniau ariannol.

28 Nid oes gan yr Awdurdod Gynllun Ariannol Tymor Canolig ar waith sy'n dryloyw ac ar gael. Nid yw wedi cyhoeddi cynllun sy'n cynnwys dangosyddion perfformiad allweddol a gwaith dadansoddi sensitifrwydd sy'n ymwneud ag elfennau allweddol o'r gyllideb ac, felly, bydd yn anodd i aelodau'r Awdurdod ac eraill ddeall goblygiadau newid ariannol yn llawn.

29 Nid oes gan yr Awdurdod bolisi ysgrifenedig ar wahân ar ddefnyddio cronfeydd wrth gefn. Trafodir ac ystyrir lefel y cronfeydd wrth gefn ond câi'r trefniadau ariannol presennol eu hatgyfnerthu drwy gael mwy o eglurder ynglŷn â'r polisi ar gronfeydd wrth gefn a'r defnydd a wneir ohonynt yn y dyfodol. Byddai nodi lefel ofynnol o gronfeydd wrth gefn a chytuno arni yn helpu aelodau'r Awdurdod i ystyried cynlluniau ariannol yn y dyfodol a byddai nodi'r polisi ar gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd yn gliriach yn sicrhau bod y broses o wneud penderfyniadau strategol yn fwy effeithiol.

30 Mae gan yr Awdurdod reolwyr cyllid a chyllidebau profiadol ac effeithiol, a gefnogir gan y trefniadau gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Mae prosesau cadw amser mewnol mewn perthynas â chyflwyno gwybodaeth ariannol yn cael eu rheoli'n dda ac maent yn gweithio'n dda ym mhob rhan o'r Awdurdod. Mae'r Awdurdod wedi ystyried yr heriau ariannol ac wedi gwneud tybiaethau rhesymol wrth bennu ei gyllideb ar gyfer 2014-15, a ategir gan ddata a gwybodaeth gadarn.

31 Mae gan yr Awdurdod bolisi clir ar godi tâl a chynhyrchu incwm. Er mai prin yw'r cyfleoedd i godi tâl am wasanaethau sy'n rhai statudol ar y cyfan, byddai mwy o eglurder ynglŷn â'r mater hwn yn helpu'r gwasanaethau i ddeall y costau a'r manteision sy'n gysylltiedig â chyflawni pob agwedd ar y gwaith o weithredu gwasanaethau yn glir.

## Mae'r Awdurdod wedi rheoli'r gwaith o gyflawni arbedion effeithlonrwydd tra'n cynnal lefelau diogel o wasanaeth ond mae'r lleihad mewn gallu corfforaethol yn debygol o arafu newidiadau yn y dyfodol

### Mae'r Awdurdod wedi gwneud arbedion effeithlonrwydd drwy newidiadau i'r gweithlu dros y tair blynedd diwethaf ac wedi nodi arbedion posibl eraill drwy ad-drefnu'r gweithlu

32 Fel y cofnodwyd yn ein hasesiad cynllunio ariannol ym mis Rhagfyr 2014 bu'r Awdurdod yn llwyddiannus o ran gosod a chytuno ar ffigurau alldro cywir wrth reoli ei gyllideb ar gyfer yr ychydig flynyddoedd diwethaf a chadw at yr alldro hwnnw. Llwyddodd i wneud hyn ar adeg o bwysau cyllidebol drwy gynnal cyllideb gytbwys yn bennaf drwy arbedion costau cyflogeion. Ni fu hyn ar draul bodloni ei gyfrifoldebau statudol. Mae'r Awdurdod wedi cynnal gwasanaeth effeithiol i'r cymunedau yn y Gogledd drwy gydol y cyfnod hwn gyda phwyslais cryf ar waith atal.

33 Fel sy'n wir am awdurdodau tân eraill yng Nghymru, cyflog cyflogeion yw'r gyfran fwyaf o wariant. Yn 2013-14, roedd cyflogau yn cyfrif am 68 y cant o'r gwariant cyffredinol. Mae gan y gwasanaeth gymysgedd o staff ar ddyletswydd amser cyflawn, a staff wrth gefn (ar alwad rhan amser) i ddarparu ei wasanaethau ymateb gweithredol. Mae costau staff a ddangosir yn natganiadau o gyfrifon yr Awdurdod ar gyfer 2011-12, 2012-13 a 2013-14 wedi gostwng £1,856,229[4] mewn termau real ers 2011-12. Mae costau staff wedi lleihau yn gyffredinol ond gwelwyd y gostyngiadau mwyaf sylweddol yng nghost staff amser cyflawn mewn lifrai a staff wrth gefn mewn lifrau.

34 Penderfynodd yr Awdurdod yn 2011 fod potensial i arbedion effeithlonrwydd gael eu gwneud i systemau criwio. Ar y pryd, roedd gan yr Awdurdod nifer fwy o gyflogeion ar bob gwylfa na llawer o Awdurdodau Tân ac Achub eraill ledled y DU. Fodd bynnag, mae llawer o fodelau gwahanol o drefniadau criwio wedi cael eu datblygu mewn Awdurdodau Tân ac Achub unigol. Er mwyn nodi'r model mwyaf priodol i'r Gogledd creodd yr Awdurdod dîm prosiect bach i werthuso ac asesu cryfderau a gwendidau'r modelau amrywiol hyn, a sut y gellid gwneud newidiadau i'r trefniadau criwio yn y Gogledd.

### Ymchwiliwyd i opsiynau a rhoddwyd arweinyddiaeth a chyfeiriad clir i roi newid ar waith mewn cyd-drafodaethau â chynrychiolwyr y gweithlu tra'n cynnal lefelau diogel o wasanaeth

35 Roedd tîm y Prosiect a sefydlwyd i ymchwilio i opsiynau yn cynnwys rheolwyr canol (Rheolwyr Gwarchod) o'r gwasanaeth. Roedd hyn yn bwysig o ran sicrhau proses gynhwysol ac ymgynghorol. Llywiwyd y prosiect gan staff gweithredol a fyddai'n gallu ymwneud â'r gweithlu a gweithio gyda chynrychiolwyr undebau i ddatblygu'r newidiadau. Cysylltodd tîm y prosiect â 60 o awdurdodau tân ac achub eraill ac ymwelodd â 21 fel rhan o'r broses ymchwilio. Yna ystyriwyd opsiynau gan yr uwch dîm rheoli cyn gwneud argymhellion i banel o Swyddogion Gweithredol yr Awdurdod. Nododd y broses ymchwilio nad oedd y newidiadau arfaethedig yn radical mewn cyd-destun cenedlaethol. I bob pwrpas, roedd y lleihad yn nifer y staff fesul sifft yn golygu bod yr Awdurdod yn gymesur â nifer sylweddol o wasanaethau tân ac achub eraill ledled y DU ac yn galluogi'r Awdurdod i gynnal lefel ddiogel o wasanaeth ar gyfer y cymunedau y mae'n eu gwasanaethu.

4 Fel y'u mesurir gan ddatchwyddwyr cynnyrch domestig gros y Trysorlys a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2015.

36 Ystyriodd aelodau'r Awdurdod amrywiaeth briodol o wybodaeth cyn penderfynu rhoi'r newid ar waith. Byddai rhai o'r opsiynau a gyflwynwyd i'r Awdurdod, yn dilyn y gwaith a oedd yn ymwneud â'r arfarniad o opsiynau'r gyllideb, wedi bod yn ddadleuol ac yn anodd i'w gweithredu. Er enghraifft, byddai cau gorsafoedd mewn cymunedau gwledig bach a oedd eisoes yn anghysbell yn amhoblogaidd a gallai gael effaith anghymesur mewn ardaloedd gwledig ac ar yr economi wledig. Roedd y newidiadau o ran trefnu staff ar ddyletswydd yn ateb synhwyrol i ganfod arbedion hirdymor heb fod angen cau unrhyw orsafoedd.

37 Cynhaliwyd cyd-drafodaethau effeithiol ag Undeb y Brigadau Tân drwy gydol y broses. Caiff y cyfarfodydd hyn eu cofnodi. Cynhaliwyd cyd-drafodaethau hefyd i ymgynghori â'r staff yn y gorsafoedd yr effeithiwyd arnynt a chynhaliwyd hyn ar y cyd â chynrychiolwyr undebau.

38 Roedd nod y trefniadau trefnu staff diwygiedig yn glir i'r cyfranogwyr yn y prosiect ond ni chafodd ei nodi'n llawn mewn dogfennau nac adroddiadau. Yr egwyddorion allweddol oedd sicrhau y câi 'lefel criwio orau bosibl' ei chynnal ac y câi'r ymrwymiad hirsefydlog i sicrhau bod pum aelod o staff ar bob cerbyd ei gynnal. Cyn y newidiadau hyn roedd gormod o gyflogeion ar bob gwylfa yn y gorsafoedd amser cyflawn yr effeithiwyd arnynt a oedd yn arwain at gapasiti cudd. Ni fyddai'r newidiadau arfaethedig yn peryglu gallu gweithredol, ond, drwy rymuso rheolwyr sy'n trefnu staff lleol, gellid sicrhau arbedion o'r gyllideb costau cyflogeion.

## Cefnogir rhai agweddau ar y fenter gan ddogfennaeth glir, ond nid eraill, gan wanhau'r gallu i werthuso gofynion o ran adnoddau staff i gynnal cyflymder y newid mawr yn y dyfodol

39 Ar gyfer yr adolygiad hwn ceisiwyd tystiolaeth i ddangos bod y broses newid wedi cael ei rheoli gan ddefnyddio egwyddorion rheoli prosiectau ffurfiol, wedi'u dogfennu. Mantais mabwysiadu a chofnodi ymagwedd o'r fath yw ei bod yn galluogi'r Awdurdod i gasglu gwybodaeth y gellir cyfeirio ati yn y dyfodol a chynllunio fel y gellir dysgu gwersi a'u cynnwys mewn cynlluniau yn y dyfodol. O gofio'r gallu cymharol fach sydd ar gael i'r Awdurdod ar adeg o newid cyflym bydd cyfle i 'oedi a myfyrio' mewn perthynas â phrosiectau o'r fath yn galluogi'r Awdurdod i barhau i weithredu'n effeithlon yn y dyfodol a sylweddoli pa adnoddau staff sydd eu hangen i gefnogi'r newid a gyflawnir a'r amserlenni tebygol ar gyfer gwireddu buddiannau bwriadedig y newid hwnnw.

40 Mae rhywfaint o dystiolaeth yn nodi beth oedd y newidiadau, a sut y dylent gael eu rhoi ar waith ond prin yw'r dystiolaeth honno. Er enghraifft, lluniodd y gwasanaeth Orchymyn Polisi a Gweithdrefn Gweinyddol Gwasanaethau (SAPPO) sy'n nodi sut y byddai'r system newydd yn gweithredu. Mae'r dogfennau hyn yn eitem cofnodi safonol i'r Panel Gweithredol ac i strwythurau cyfarfodydd gweithredol mewnol yr Awdurdod. Felly byddai staff yn ymwybodol o'r newidiadau a sut y byddent yn effeithio arnynt yn unigol ac ar y cyd.

41 Mae cofnodion cyfarfodydd â chynrychiolwyr Undeb y Brigadau Tân ar gael fel cofnod o drafodaethau am newidiadau i batrymau sifft. Ni chafodd unrhyw gynllun

gweithredu na chynllun prosiect cyffredinol ei lunio. Felly daeth y cyd-drafodaethau ag Undeb y Brigadau Tân yn ganolbwynt y sylw yn hytrach na chynllun wedi'i ddogfennu.

42 Mae'r newidiadau o ran trefnu staff ar ddyletswydd wedi cael eu rhoi ar waith yn llwyddiannus ac mae'r newidiadau wedi arwain at leihad yn nifer gyffredinol y cyflogeion, gydag arbedion cost dilynol. Dywedwyd wrthym yn ystod cyfweliadau fod arbedion effeithlonrwydd wedi cael eu gwneud drwy weithredu'r system trefnu staff ar ddyletswydd. Rhoddwyd hyn fel arbediad o tua £500,000 ar gyfer 2012-13 ac arbediad pellach o £500,000 yn 2013-14. Fodd bynnag, mae diffyg dogfennaeth yn golygu, er y gellir cydnabod arbedion staff cyffredinol, fod lefelau penodol yr arbedion sy'n deillio o'r newid hwn yn llai clir. Felly, mae'n anodd nodi'r gostyngiad gwirioneddol yng nghostau cyflogeion sy'n deillio o'r fenter hon ac o gostau'r prosiect y gellid gwrthbwyso'r arbedion cychwynnol yn eu herbyn.

43 Daeth y system newydd o ran trefnu staff ar ddyletswydd i rym ar 1 Ebrill 2012. Y bwriad oedd cael gwared â 22 o swyddi staff llawn amser. Nododd yr adroddiad i'r Panel Gweithredol ar 11 Medi 2011, y bydd yr opsiwn hwn yn arwain at ddileu hyd at 36 o swyddi amser cyflawn gweithredol. Mae'n annhebygol y gellid ymdopi â hyn drwy wastraff naturiol o fewn yr amserlen, a gallai hyn felly arwain at ddileu swyddi.' Yn sgil cyflwyno'r system newydd, tynnwyd sylw hefyd at yr angen am bolisi dileu swyddi ffurfiol.

44 Lleihawyd nifer yr aelodau staff yn naturiol yn ystod 2012-13 drwy ymddeoliadau a throsiant staff cyffredinol. Asesodd yr uwch dîm rheoli nifer y staff bob chwe wythnos. Yn hytrach na dileu swyddi 22 o aelodau o staff, cawsant eu rhoi mewn 'Cronfa Adnoddau Gweithredol' beilot. Defnyddiwyd staff y Gronfa i gefnogi gorsafoedd tân a oedd yn dilyn y system ar ddyletswydd yn ôl galw yn ystod y cyfnod hwn, er mwyn osgoi'r angen i ddileu swyddi mewn un rhan o'r gwasanaeth, ond recriwtio mewn rhan arall. Roedd hyn yn ateb synhwyrol i her anodd a wynebai'r Awdurdod.

45 Gwnaed rhywfaint o waith sgrinio sylfaenol ar yr effaith ar gydraddoldeb ond nid yw graddau llawn yr effaith ar staff wedi cael ei dogfennu'n llawn. Cwblhawyd ffurflenni Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar y dechrau ond mae diffyg gwerthusiad cynhwysfawr o'r newidiadau ar ôl y sgrinio cychwynnol hwn.

46 Ni chynhaliwyd unrhyw sesiwn ôl-drafod strwythuredig i staff yr oedd y newidiadau yn effeithio arnynt. Cynhaliwyd rhai cyfarfodydd mewnol â Rheolwyr Gwylfeydd i asesu datblygiad y newidiadau, y tybiwyd eu bod yn llwyddiannus. Fodd bynnag, heb unrhyw adroddiadau ffurfiol, nid yw'n glir pa faterion a godwyd na sut y byddai'r gwasanaeth yn ymateb i faterion a oedd yn datblygu.

47 Mae gweithredu newid sylweddol dros y tair blynedd diwethaf wedi cynyddu llwyth gwaith swyddogaeth gwasanaethu a rheoli canolog sydd eisoes yn gyfyngedig. Er enghraifft, mae gan y swyddogaeth rheoli perfformiad ddau aelod o staff, a darperir gwasanaethau ariannol yn allanol drwy gyfrwng cytundeb lefel gwasanaeth, a bach iawn yw nifer y staff ystadegol. Mae hyn yn golygu bod yr Awdurdod mewn sefyllfa fregus pan fydd yn rheoli prosiectau newid mawr.

## Mae systemau sefydledig yn cynhyrchu gwybodaeth reoli gywir, er bod bylchau o ran cydraddoldeb, y mae'r Awdurdod yn ei defnyddio er mwyn cefnogi gwelliant

48 Cynhaliwyd adolygiad o sampl o fesurau perfformiad a systemau data gweithredol. Diben yr adolygiad oedd:

a profi systemau a threfniadau sy'n cefnogi'r broses o lunio gwybodaeth am reoli perfformiad, gan gynnwys dangosyddion perfformiad strategol, craidd a lleol a ddefnyddir i gefnogi'r gwaith o gynllunio ac adrodd ar welliant:

b dilysu a chadarnhau cywirdeb cyflwyniadau a wnaed i Lywodraeth Cymru mewn perthynas â Dangosyddion Cenedlaethol, Strategol a Chraidd a ffurflenni data cysylltiedig; ac

c adolygu'r modd y mae'r Awdurdod yn nodi tueddiadau a newidiadau mewn perfformiad er mwyn llywio'r gwaith o gynllunio ac adrodd ar welliant.

49 Er nad oes amserlen ysgrifenedig ffurfiol ar gyfer cwblhau'r dangosyddion Cenedlaethol, Strategol a Chraidd blynyddol, gwelsom fod staff yn glir o ran pryd y dylid eu cyflwyno ac o ran rolau a chyfrifoldebau. Caiff gweithgareddau eu cydlynu'n effeithiol gan y tîm Cynllunio Corfforaethol, ac mae'r parhad o ran gofynion setiau data wedi helpu'r tim i gyflwyno data mewn ffordd amserol a chywir. Caiff cerrig milltir allweddol eu monitro gan staff Cynllunio Corfforaethol er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cyrraedd, gan gynnwys dadansoddi gwybodaeth am ddigwyddiadau trawsffiniol a chanfyddiadau'r crwner ynghylch ffigurau ar gyfer marwolaethau sy'n gysylltiedig â thanau. Mae'r un tîm yn llunio data chwarterol ar gyfer Panel Gweithredol yr Awdurdod ac at ddibenion adrodd ar asesiadau gwella ac, felly, mae'n llwyr ymwybodol o'r gofynion o ran cywirdeb data.

### Ceir rhai bylchau o ran gwybodaeth am gydraddoldeb

50 Prin yw'r wybodaeth am gydraddoldeb ac amrywiaeth sy'n ymwneud â'r holl nodweddion gwarchodedig a nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Mae rhywfaint o wybodaeth ar gael ac yn cael ei chasglu ynghylch data digwyddiadau a'r gwaith o gynnal profion diogelwch tân yn y cartref. Mae'r wybodaeth a gesglir yn ymwneud â nodweddion fel oedran ac eiddilwch sy'n golygu bob pobl yn fwy tebygol o farw mewn tanau damweiniol mewn anheddau yn hytrach na'r holl nodweddion gwarchodedig. Caiff gwybodaeth ynghylch staff ei chynnal a'i chadw gan y swyddogaeth Adnoddau Dynol. Bu swyddogion yn ymwneud â'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru er mwyn trafod y ffyrdd y mae'r Awdurdod yn cyflawni ei gyfrifoldebau o dan y Ddeddf.

51 Mae'r dangosyddion cenedlaethol, strategol a chraidd ar gyfer 2013-14 wedi'u nodi'n gywir. Er mwyn dod i'n casgliadau, gwnaethom brofi'r canlynol:

a Un ar ddeg o ddangosyddion strategol cenedlaethol, y cafwyd bod pob un ohonynt yn gywir.

b Pymtheg o ddangosyddion data craidd a/neu leol a chafwyd bod pob un ohonynt yn gywir.

c Adolygwyd prosesau ar gyfer llunio ffurflenni data cysylltiedig ar gyfer Adnoddau Dynol, gwybodaeth am y gweithlu a gwybodaeth ar gyfer y gronfa

ddata eiddo annomestig. Yn unol ag awdurdodau tân ac achub eraill, mae'r Awdurdod yn wynebu rhai heriau o ran nodi'n gywir nifer yr eiddo yng Ngogledd Cymru ac mae'n gweithio i fireinio'r gronfa ddata.

52 Defnyddiodd yr Awdurdod ganllawiau sy'n bodoli eisoes o'r amryw gylchlythyrau tân mewn ffordd gywir. Caiff gwybodaeth am berfformiad ei llunio mewn ffordd effeithlon. Ceir rhywfaint o brosesau â llaw, ond ar y cyfan, mae'r rhain yn cael eu cefnogi gan systemau effeithiol. Mae trefniadau sefydledig ar waith i lunio ystadegau cywir i'w cyflwyno i Lywodraeth Cymru (Stats Cymru). Mae'r tîm Cynllunio Corfforaethol a staff adrannol yn glir o ran eu meysydd cyfrifoldeb, ac o ran y sawl sy'n gyfrifol am yr elfennau data amrywiol.

53 Ni chodwyd unrhyw ganfyddiadau andwyol iawn wrth gyflwyno'r data terfynol. Mae tueddiadau'n cael eu nodi yn ystod y flwyddyn, ac mae staff yn arddangos ymwybyddiaeth o ganfyddiadau rheoli perfformiad parhaus.

## Caiff data eu defnyddio'n dda er mwyn llywio'r gwaith o gynllunio gwelliant a chefnogi'r broses o adrodd ar berfformiad

54 Mae'r Awdurdod yn defnyddio amrywiaeth gytbwys o wybodaeth am reoli er mwyn nodi meysydd i'w gwella ac mae'n monitro ei berfformiad ar draws amrywiaeth llawn o'i weithgareddau. Defnyddir gwybodaeth am berfformiad i gefnogi dyfarniadau, strategaethau a gwaith cynllunio busnes a chyflwynir adroddiadau rheolaidd i'r Awdurdod Tân.

## Mae'r Awdurdod yn gweithio'n gadarnhaol ar ei Gynllun Iaith Gymraeg ac yn parhau i wella ei wasanaeth Cymraeg

55 Crëwyd rôl Comisiynydd y Gymraeg (y Comisiynydd) gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Daeth pwerau newydd i orfodi safonau ar sefydliadau i rym drwy is-ddeddfwriaeth ar 31 Mawrth 2015. Bydd y Comisiynydd yn parhau i adolygu cynlluniau iaith Gymraeg yn rhinwedd y pwerau a etifeddwyd o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

56 Mae'r Comisiynydd yn gweithio gyda phob awdurdod yng Nghymru i arolygu a chynghori ar weithrediad cynlluniau iaith. Mae cyfrifoldeb ar awdurdodau i ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn Gymraeg yn unol â'r ymrwymiadau yn eu cynlluniau iaith. Mae pob awdurdod yn ymrwymedig i ddarparu adroddiad monitro blynyddol i'r Comisiynydd yn amlinellu ei berfformiad o ran rhoi'r cynllun iaith ar waith. Mae'r Comisiynydd yn dadansoddi pob adroddiad monitro, yn ymateb yn ffurfiol ac yn casglu rhagor o wybodaeth yn ôl yr angen.

57 Nododd y Comisiynydd fod canran y profion diogelwch tân drwy gyfrwng y Gymraeg wedi cynyddu ers 2012-2013. Enillodd y Gwasanaeth un o Wobrau Ysbrydoli Cymru yn y categori 'Cymraeg yn y Gweithle' a bu cynnydd yng nghanran y staff sy'n bodloni gofynion ieithyddol eu swyddi. Mae sgiliau iaith y gweithlu cyfan bellach wedi'u cofnodi, heblaw am ddau aelod o staff. Bu'r Gwasanaeth yn cydweithio â Heddlu Gogledd Cymru i gynnig cyrsiau Cymraeg ar sawl lefel. Yn dilyn problemau technegol, mae'r Gwasanaeth yn parhau i geisio datblygu modiwl ymwybyddiaeth iaith. Mae hefyd yn cyfieithu pob modiwl hyfforddi arall nad ydynt ar gael yn ddwyieithog eto. Cyflwynir dwy wobr flynyddol er mwyn cydnabod ymroddiad aelodau o staff sy'n dysgu Cymraeg neu'n cyfrannu at y Gymraeg. Mae'r Gwasanaeth bellach yn dyfarnu gwobr ychwanegol i gydnabod cyfraniad gorsaf neu adran benodol at y Gymraeg. Cafodd y Cyfieithydd a Swyddog Cyswllt y Gymraeg hyfforddiant gan Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru. Darperir cyfleusterau cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd a chyfweliadau swydd, yn ôl yr angen.

# Atodiad 1 – Statws yr adroddiad hwn

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal asesiad gwella blynyddol, a chyhoeddi adroddiad gwella blynyddol, ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Mae'r gofyniad hwn yn cwmpasu cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Lluniwyd yr adroddiad hwn gan staff Swyddfa Archwilio Cymru ar ran yr Archwilydd Cyffredinol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 o'r Mesur. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 19 i gyflwyno adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal asesiad gwella o dan adran 18 ac yn nodi a yw o'r farn, o ganlyniad i'w archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17, fod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio gwelliant o dan adran 15.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau'. Diffinnir awdurdodau gwella fel cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Yr asesiad gwella blynyddol yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau. Mae'r asesiad gwella yn asesiad sy'n edrych i'r dyfodol o'r tebygolrwydd y bydd awdurdod yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Mae hefyd yn cynnwys asesiad ôl-weithredol i nodi a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo er mwyn llunio barn ar hanes yr awdurdod o ran sicrhau gwelliant. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi ei waith archwilio ac asesu mewn adroddiad gwella blynyddol cyhoeddedig ar gyfer pob awdurdod (o dan adran 24).

O dan rai amgylchiadau, gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), y cyflwynir adroddiad arnynt i'r awdurdod a'r Gweinidogion, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Un o weithgareddau atodol pwysig yr Archwilydd Cyffredinol yw cydgysylltu gwaith asesu a gwaith rheoliadol (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau.

# Atodiad 2 – Archwilio Cynllun Gwella 2014-15 Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

## Tystysgrif

Ardystiaf fy mod wedi archwilio Cynllun Gwella Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn unol ag adran 17 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) a'm Cod Ymarfer Archwilio.

O ganlyniad i'm harchwiliad, rwyf o'r farn bod yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 15(6) i (9) o'r Mesur ac wedi gweithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

## Priod gyfrifoldebau'r Awdurdod a'r Archwilydd Cyffredinol

O dan y Mesur, mae'n ofynnol i'r Awdurdod baratoi a chyhoeddi Cynllun Gwella sy'n disgrifio ei gynlluniau i gyflawni ei ddyletswyddau i:

- wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni ei swyddogaethau;
- gwneud trefniadau i sicrhau y caiff ei amcanion gwella eu cyflawni; a
- gwneud trefniadau i arfer ei swyddogaethau er mwyn sicrhau y cyrhaeddir unrhyw safon perfformiad a nodir gan Weinidogion Cymru.

Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi ei Gynllun Gwella cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'n ymwneud â hi, neu ar ôl y cyfryw ddyddiad arall ag y gall Gweinidogion Cymru ei nodi drwy orchymyn.

Mae'r Awdurdod yn gyfrifol am baratoi'r Cynllun Gwella ac am y wybodaeth a nodir ynddo. Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod ystyried canllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru wrth baratoi a chyhoeddi ei gynllun.

Fel archwilydd yr Awdurdod, mae'n ofynnol i mi, o dan adrannau 17 a 19 o'r Mesur, archwilio'r Cynllun Gwella, ardystio fy mod wedi gwneud hynny a chyflwyno adroddiad i nodi a wyf o'r farn bod yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau i baratoi a chyhoeddi Cynllun Gwella yn unol â'r gofynion statudol a nodir yn adran 15 a chanllawiau statudol.

## Cwmpas yr archwiliad o'r Cynllun Gwella

At ddibenion fy ngwaith archwilio, ar yr amod bod awdurdod yn bodloni ei ofynion statudol, byddaf yn derbyn ei fod hefyd wedi cydymffurfio â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

Ar gyfer yr archwiliad hwn nid yw'n ofynnol i mi lunio barn ar gyflawnrwydd na chywirdeb y wybodaeth nac ar b'un a ellir cyflawni'r Cynllun Gwella a gyhoeddwyd gan yr Awdurdod. Efallai y bydd gwaith asesu arall y byddaf yn ei wneud o dan adran 18 o'r Mesur yn ystyried y materion hyn. Felly, roedd fy archwiliad o Gynllun Gwella'r Awdurdod yn cynnwys adolygu'r cynllun er mwyn nodi a oedd yn cynnwys elfennau a ragnodir mewn deddfwriaeth. Asesais hefyd a oedd y trefniadau ar gyfer cyhoeddi'r cynllun yn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth ac a oedd yr Awdurdod wedi ystyried canllawiau statudol wrth baratoi a chyhoeddi ei gynllun.

Ni ellir dibynnu ar y gwaith a wnaed gennyf er mwyn cyflwyno adroddiadau a gwneud argymhellion yn unol ag adrannau 17 a 19 o'r Mesur yn unig i nodi pob gwendid neu gyfle i wella.

Huw Vaughan Thomas
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

COPI I: Lesley Griffiths, Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth
Lisa Williams Swyddog Arweiniol Archwilio Perfformiad

# Atodiad 3 – Archwilio asesiad o berfformiad 2013-14 Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

## Tystysgrif

Ardystiaf fy mod wedi archwilio asesiad Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru o'i berfformiad yn 2013-14 yn unol ag adran 17 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) a'm Cod Ymarfer Archwilio.

O ganlyniad i'm harchwiliad, rwyf o'r farn bod yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adrannau 15(2), (3), (8) a (9) o'r Mesur ac wedi gweithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

## Priod gyfrifoldebau'r Awdurdod a'r Archwilydd Cyffredinol

O dan y Mesur, mae'n ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi asesiad bob blwyddyn sy'n disgrifio ei berfformiad o ran:

- cyflawni ei ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau;
- cyflawni'r amcanion gwella y mae wedi'u pennu iddo'i hun;
- drwy gyfeirio at ddangosyddion perfformiad a nodir gan Weinidogion Cymru a dangosyddion perfformiad hunanosodedig; a
- chyrraedd unrhyw safonau perfformiad a nodir gan Weinidogion Cymru a safonau perfformiad hunanosodedig.

Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi ei asesiad cyn 31 Hydref yn y flwyddyn ariannol sy'n dilyn y flwyddyn ariannol y mae'r wybodaeth yn ymwneud â hi, neu erbyn y cyfryw ddyddiad arall ag y gall Gweinidogion Cymru ei nodi drwy orchymyn.

Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod ystyried canllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru wrth gyhoeddi ei asesiad.

Fel archwilydd yr Awdurdod, mae'n ofynnol i mi, o dan adrannau 17 a 19 o'r Mesur, gynnal archwiliad er mwyn pennu a yw'r Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswydd i gyhoeddi asesiad o berfformiad, ardystio fy mod wedi gwneud hynny, a chyflwyno adroddiad yn nodi a wyf o'r farn bod yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau yn unol â'r gofynion statudol a nodir yn adran 15 a chanllawiau statudol.

## Cwmpas yr archwiliad

At ddibenion fy ngwaith archwilio, ar yr amod bod awdurdod yn bodloni ei ofynion statudol, byddaf yn derbyn ei fod hefyd wedi cydymffurfio â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

Ar gyfer yr archwiliad hwn nid yw'n ofynnol i mi lunio barn ar gyflawnrwydd na chywirdeb y wybodaeth. Efallai y bydd gwaith asesu arall y byddaf yn ei wneud o dan adran 18 o'r Mesur yn ystyried y materion hyn. Felly, roedd fy archwiliad o asesiad yr Awdurdod o'i berfformiad yn cynnwys adolygu cyhoeddiad yr Awdurdod er mwyn cadarnhau a oedd yn cynnwys elfennau a ragnodir mewn deddfwriaeth. Asesais hefyd a oedd y trefniadau ar gyfer cyhoeddi'r asesiad yn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth ac a oedd yr Awdurdod wedi ystyried canllawiau statudol wrth ei baratoi a'i gyhoeddi.

Ni ellir dibynnu ar y gwaith a wnaed gennyf er mwyn cyflwyno adroddiadau a gwneud argymhellion yn unol ag adrannau 17 a 19 o'r Mesur yn unig i nodi pob gwendid neu gyfle i wella.

Huw Vaughan Thomas
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

COPI I: Leighton Andrews, y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus
Steve Barry, Rheolwr

# Atodiad 4 – Llythyr Archwilio Blynyddol

Simon Smith
Prif Swyddog Tân
Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Ffordd Salesbury
Parc Busnes Llanelwy
Llanelwy
Sir Ddinbych
LL17 0JJ

Annwyl Simon

**Llythyr Archwilio Blynyddol – Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru 2013-14**

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n deillio o'm cyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 fel yr Archwilydd Penodedig a'm cyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

## Cydymffurfiodd yr Awdurdod â'i gyfrifoldebau yn ymwneud ag adroddiadau ariannol a defnyddio adnoddau

Cyfrifoldeb yr Awdurdod yw:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi Datganiad Cyfrifon yn unol â gofynion perthnasol; a
- sefydlu ac adolygu'n barhaus drefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Awdurdod i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau; a
- rhoi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r broses o archwilio'r cyfrifon.

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn paratoi eu datganiadau cyfrifyddu yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Cod hwn yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol. Ar 29 Medi 2014 rhoddais farn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa a thrafodion ariannol yr Awdurdod a'r Gronfa Bensiwn. Mae fy adroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiad Cyfrifon. Hysbyswyd aelodau'r Pwyllgor Archwilio am y materion allweddol a oedd yn deillio o'r archwiliad o'r cyfrifon yn fy adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol ar 15 Medi 2014, a chyflwynir adroddiad manylach maes o law.

## Rwy'n fodlon bod gan yr Awdurdod drefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau

Mae fy ystyriaeth o drefniadau'r Awdurdod i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi bod yn seiliedig ar y gwaith archwilio a wnaed ar y cyfrifon ac rwyf hefyd wedi dibynnu ar y gwaith a gwblhawyd fel rhan o'r Asesiad Gwella o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn tynnu sylw at y meysydd lle nad yw effeithiolrwydd y trefniadau hyn wedi'u profi eto neu lle y gellid gwneud gwelliannau pan fydd yn cyhoeddi ei Adroddiad Gwella Blynyddol.

## Cyhoeddais dystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o'r cyfrifon wedi'i gwblhau ar 29 Medi 2014

Ar hyn o bryd, disgwylir i'r ffi archwilio ariannol ar gyfer 2013-14 fod yn unol â'r ffi y cytunwyd arni a nodir yn yr Amlinelliad o'r Archwiliad Blynyddol.

Yn gywir

Anthony Barrett
**Archwilydd Penodedig**

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru